

# HYSBYSIAD YNGHYLCH GWELLIANNAU NOTICE OF AMENDMENTS

Cyflwynwyd ar 29 Tachwedd 2022  
Tabled on 29 November 2022

## Bil Diogelu'r Amgylchedd (Cynhyrchion Plastig Untro) (Cymru) The Environmental Protection (Single-use Plastic Products) (Wales) Bill

### Rhys ab Owen

6

Section 1, page 1, after line 23, insert –

'(7) For the purposes of subsection (3), an electronic cigarette is deemed to be single-use if it is not designed or manufactured to be refillable by means of a refill container or a tank, or is not rechargeable with single-use cartridges.'

Adran 1, tudalen 1, ar ôl llinell 24, mewnosoder –

'(7) At ddibenion is-adran (3), ystyrir bod sigarét electronig yn gynnyrch untro os nad yw wedi ei dylunio neu ei gweithgynhyrchu i gael ei hail-lenwi drwy gynhwysydd ail-lenwi neu danc, neu na ellir ei hailwefru â chetris untro.'

### Rhys ab Owen

7

Section 4, page 2, line 36, after 'wipes', insert ' , electronic cigarettes (as defined in regulation 2(1) of the Tobacco and Related Products Regulations 2016 (S.I. 2016/507)) that are disposable'.

Adran 4, tudalen 2, llinell 36, ar ôl 'weips', mewnosoder ' , sigarêts electronig (fel y'u diffinnir yn rheoliad 2(1) o Reoliadau Tybaco a Chynhyrchion Cysylltiedig 2016 (O.S. 2016/507)) sy'n gynhyrchion untro'.

### Rhys ab Owen

8

Section 20, page 9, after line 34, insert –

““electronic cigarette” (“sigarét electronig”) has the meaning given in paragraph 2 of the Schedule;”.

Adran 20, tudalen 10, ar ôl llinell 6, mewnosoder –



'mae i "sigarét electronig" ("*electronic cigarette*") yr ystyr a roddir ym mharagraff 2 o'r Atodlen;'

**Rhys ab Owen** 9

Schedule 1, page 13, Table 1, after line 6, insert –

Electronic cigarettes	
-----------------------	--

Atodlen 1, tudalen 13, Tabl 1, ar ôl llinell 22, mewnosoder –

Sigaréts electronig	
---------------------	--

**Rhys ab Owen** 10

Schedule 1, page 13, after line 31, insert –

"*electronic cigarette*" ("*sigarét electronig*") has the meaning given in regulation 2(1) of the Tobacco and Related Products Regulations 2016 (S.I. 2016/507);'

Atodlen 1, tudalen 15, ar ôl llinell 17, mewnosoder –

'mae i "*sigarét electronig*" yr ystyr a roddir i "*electronic cigarette*" yn rheoliad 2(1) o Reoliadau Tybaco a Chynhyrchion Cysylltiedig 2016 (O.S. 2016/507);'

**Janet Finch-Saunders** 11

Section 1, page 1, line 12, after 'not', insert 'conceived,'.

Adran 1, tudalen 1, ar ddechrau llinell 14, mewnosoder 'ddyfeisio, ei'.

**Janet Finch-Saunders** 12

Section 1, page 1, line 13, after 'was', insert 'conceived,'.

Adran 1, tudalen 1, llinell 14, ar ôl 'y'i' yn yr ail le y mae'n ymddangos, mewnosoder 'dyfeisiwyd, y'i'.

**Janet Finch-Saunders** 13

Section 1, page 1, line 15, leave out ', other than an adhesive, paint or ink, and includes a material consisting of a polymer that has other substances added to it.' and insert 'as defined in Article 3(5) of Regulation (EC) No 1907/2006 concerning the Registration, Evaluation, Authorisation and Restriction of Chemicals (REACH), to which additives or other substances may have been added, and which can function as a main structural component of final products, with the exception of natural polymers that have not been chemically modified.'

Adran 1, tudalen 1, llinell 17, hepgorer ‘, ac eithrio adlyn, paent neu inc, ac mae’n cynnwys deunydd ar ffurf polymer sydd â sylweddau eraill wedi eu hychwanegu ato.’ a mewnosoder ‘fel y’i diffinnir yn Erthygl 3(5) o Reoliad (EC) Rhif 1907/2006 ynghylch Cofrestru, Gwerthuso, Awdurdodi a Chyfyngu ar Gemegau (REACH), y gall ychwanegion neu sylweddau eraill fod wedi eu hychwanegu ato, ac sy’n gallu gweithredu fel prif gydran strwythurol cynhyrchion terfynol, ac eithrio polymerau naturiol nad ydynt wedi eu haddasu yn gemegol.’

**Janet Finch-Saunders**

**14**

Section 1, page 1, line 17, leave out ‘ –

- (a) means a polymer that can function as the main structural component of a product;
- (b) does not include a natural polymer that has not been chemically modified.’

and insert ‘does not include an adhesive, paint or ink.’

Adran 1, tudalen 1, llinell 19, hepgorer ‘o ran y cyfeiriad at “polymer” –

- (a) mae’n golygu polymer sy’n gallu gweithredu fel prif gydran strwythurol cynnyrch;
- (b) nid yw’n cynnwys polymer naturiol nad yw wedi ei addasu yn gemegol.’

a mewnosoder ‘nid yw’r cyfeiriad at “polymer” yn cynnwys adlyn, paent nac inc.’

**Janet Finch-Saunders**

**15**

Section 2, page 2, after line 8, insert –

- ‘(c) how the exemptions contained in Table 1 of the Schedule to this Act apply to straws that are single-use plastic products, including how a supplier can be satisfied that they reasonably believe that a person needs the straw for health or disability reasons.’

Adran 2, tudalen 2, ar ôl llinell 8, mewnosoder –

- ‘(c) sut y mae’r esemptiadau sydd wedi eu cynnwys yn Nhabl 1 o’r Atodlen i’r Ddeddf hon yn gymwys i wellt sy’n gynhyrchion plastig untro, gan gynnwys sut y gall cyflenwr fod wedi ei fodloni ei fod yn credu yn rhesymol bod angen y gwelltyn ar berson am resymau iechyd neu anabledd.’

**Janet Finch-Saunders**

**16**

Page 2, after line 8, insert a new section –

**[ ] List of manufacturers of single-use plastic products in Wales**

- (1) The Welsh Ministers must maintain a list of manufacturers of single-use plastic products that operate in Wales.
- (2) For the purposes of subsection (1), a manufacturer operates in Wales if they have premises in Wales that manufacture single-use plastic products.’

Tudalen 2, ar ôl llinell 8, mewnosoder adran newydd –

**[ ] Rhestr o weithgynhyrchwyr cynhyrchion plastig untro yng Nghymru**

- (1) Rhaid i Weinidogion Cymru gynnal rhestr o weithgynhyrchwyr cynhyrchion plastig untro sy'n gweithredu yng Nghymru.
- (2) At ddibenion is-adran (1), mae gweithgynhyrchwr yn gweithredu yng Nghymru os oes ganddo fangre yng Nghymru sy'n gweithgynhyrchu cynhyrchion plastig untro.'

**Janet Finch-Saunders**

17

Section 3, page 2, after line 23, insert –

- '( ) such persons as the Welsh Ministers consider represent the interests of people who have a protected characteristic within the meaning given in section 4 of the Equality Act 2010 (c. 15), and on whom the regulations may have a particular impact for that reason;'

Adran 3, tudalen 2, ar ôl llinell 23, mewnosoder –

- '( ) y personau hynny y mae Gweinidogion Cymru yn ystyried eu bod yn cynrychioli buddiannau pobl sydd â nodwedd warchoddedig o fewn yr ystyr a roddir i "protected characteristics" yn adran 4 o Ddeddf Cydraddoldeb 2010 (p.15), ac y gall y rheoliadau gael effaith benodol arnynt am y rheswm hwnnw.'

**Janet Finch-Saunders**

18

Section 4, page 2, line 34, after '3', insert 'including but not limited to their consideration of whether to'.

Adran 4, tudalen 2, llinell 34, ar ôl '3', mewnosoder 'gan gynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i'w hystyriaeth ynghylch pa un ai'.

**Janet Finch-Saunders**

19

Section 4, page 2, leave out lines 35 to 36 and insert '(a) add wet wipes and sauce sachets to column 1 of the Table in paragraph 1 of the Schedule'.

Adran 4, tudalen 2, llinell 35, hepgorer 'cynhyrchion plastig untro ychwanegol at golofn 1 o'r Tabl ym mharagraff 1 o'r Atodlen, gan gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i weips a bagiau bach o saws' a mewnosoder 'weips a bagiau bach o saws at golofn 1 o'r Tabl ym mharagraff 1 o'r Atodlen'.

**Janet Finch-Saunders**

20

Section 4, page 2, line 36, after 'wipes', insert ', oxo-degradable plastic,'.

Adran 4, tudalen 2, llinell 36, ar ôl 'weips', mewnosoder ', plastig ocso-ddiraddiadwy,'.

**Janet Finch-Saunders**

21

Section 4, page 3, line 2, leave out ', including but not limited to exemptions'.

Adran 4, tudalen 3, llinell 2, hepgorer ', gan gynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i esemptiad'.

**Janet Finch-Saunders**

22

Section 4, page 3, after line 4, insert –

- '(3) In this section, "oxo-degradable plastic" ("*plastig ocsoddiraddiadwy*") means plastic containing any substance added for the purpose of accelerating the oxidation and fragmentation of the plastic when exposed to heat or light (whether or not this is, or may be, followed by partial or complete breakdown of the material by microbial action).'

Adran 4, tudalen 3, ar ôl llinell 4, mewnosoder –

- '(3) Yn yr adran hon, ystyr "*plastig ocsoddiraddiadwy*" ("*oxo-degradable plastic*") yw plastig sy'n cynnwys unrhyw sylwedd a ychwanegir at ddiben cyflymu'r broses o ocsideiddio a darnio'r plastig wrth iddo ddod i gysylltiad â gwres neu olau (pa un a ddilynir hyn, neu y gellir dilyn hyn, gan ddadfeiliad rhannol neu ddadfeiliad llwyr y deunydd drwy weithgarwch microbaidd ai peidio).'

**Janet Finch-Saunders**

23

Section 4, page 3, after line 4, insert –

- '(3) In the report they are required to publish under section 79(2) of the Government of Wales Act 2006, the Welsh Ministers must set out information about –
- (a) the number of prosecutions brought under section 5, and
  - (b) the number of persons found guilty of the offence under section 5.'

Adran 4, tudalen 3, ar ôl llinell 4, mewnosoder –

- '(3) Yn yr adroddiad y mae'n ofynnol iddynt ei gyhoeddi o dan adran 79(2) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, rhaid i Weinidogion Cymru nodi gwybodaeth –
- (a) am nifer yr erlyniadau a ddygwyd o dan adran 5, a
  - (b) am nifer y personau a gafwyd yn euog o'r drosedd o dan adran 5.'

**Janet Finch-Saunders**

24

Section 5, page 3, after line 13, insert –

- '( ) In proceedings for an offence under subsection (1), if P is in possession of prohibited single-use plastic products, it is a defence for P to show that P did not intend to supply prohibited single-use plastic products to consumers in Wales.
- ( ) P is taken to have shown that P did not intend to supply prohibited single-use plastic products to consumers in Wales if –
- (a) sufficient evidence of this is adduced to raise an issue with respect to it, and
  - (b) the contrary is not proved beyond reasonable doubt.'

Adran 5, tudalen 3, ar ôl llinell 13, mewnosoder –

- ( ) Mewn achos am drosedd o dan is-adran (1), os yw P yn meddu ar gynhyrchion plastig untro gwaharddedig, mae'n amddiffyniad i P ddangos nad oedd P yn bwriadu cyflenwi cynhyrchion plastig untro gwaharddedig i ddefnyddwyr yng Nghymru.
- ( ) Cymerir bod P wedi dangos nad oedd P yn bwriadu cyflenwi cynhyrchion plastig untro gwaharddedig i ddefnyddwyr yng Nghymru –
- (a) os dygir tystiolaeth ddigonol o hyn i godi mater yn ei gylch, a
  - (b) os na phrofir i'r gwrthwyneb y tu hwnt i amheuaeth resymol.'

**Janet Finch-Saunders**

25

Page 4, after line 31, insert a new section –

**[ ] Duty to ensure sufficient funding of local authorities**

The Welsh Ministers must ensure that a local authority receives sufficient funding to enable the local authority to take such action as it considers necessary as a consequence of the changes to the law made by this Act.'

Tudalen 4, ar ôl llinell 33, mewnosoder adran newydd –

**[ ] Dyletswydd i sicrhau cyllid digonol i awdurdodau lleol**

Rhaid i Weinidogion Cymru sicrhau bod awdurdod lleol yn cael cyllid digonol i alluogi'r awdurdod lleol i gymryd unrhyw gamau y mae'n ystyried eu bod yn angenrheidiol o ganlyniad i'r newidiadau i'r gyfraith a wneir gan y Ddeddf hon.'

**Janet Finch-Saunders**

26

Section 9, page 5, line 8, leave out 'premises used wholly or mainly as a dwelling' and insert 'residential premises'.

Adran 9, tudalen 5, llinell 7, hepgorer 'a ddefnyddir yn gyfan gwbl neu'n bennaf fel annedd' a mewnosoder 'breswyl'.

**Janet Finch-Saunders**

27

Section 9, page 5, after line 12, insert –

- (5) For the purposes of this section and sections 10 and 11, "residential premises" means premises, or any part of premises, used wholly or mainly as a dwelling.'

Adran 9, tudalen 5, ar ôl llinell 13, mewnosoder –

- (5) At ddibenion yr adran hon ac adrannau 10 ac 11, ystyr "mangre breswyl" yw mangre, neu unrhyw ran o fangre, a ddefnyddir yn gyfan gwbl neu'n bennaf fel annedd.'

**Janet Finch-Saunders**

28

Section 10, page 5, line 15, leave out 'premises used wholly or mainly as a dwelling' and insert 'residential premises'.

Adran 10, tudalen 5, llinell 16, hepgorer 'a ddefnyddir yn gyfan gwbl neu'n bennaf fel annedd' a mewnosoder 'breswyl'.

**Janet Finch-Saunders**

**29**

Section 11, page 5, line 25, leave out 'premises used wholly or mainly as a dwelling' and insert 'residential premises'.

Adran 11, tudalen 5, llinell 26, hepgorer 'a ddefnyddir yn gyfan gwbl neu'n bennaf fel annedd' a mewnosoder 'breswyl'.

**Janet Finch-Saunders**

**30**

Section 22, page 10, line 20, after 'sections', insert '[section to be inserted by amendment 16]'.

Adran 22, tudalen 10, llinell 22, ar ôl 'adrannau', mewnosoder '[adran i'w mewnosod gan welliant 16]'.

**Janet Finch-Saunders**

**31**

Schedule 1, page 13, Table 1, line 6, column 2, insert –

	The cotton bud is supplied to a forensic service provider (as defined in regulation 2 of the Accreditation of Forensic Service Providers Regulations 2018 (S.I. 2018/1276)).
--	--

Atodlen 1, tudalen 13, Tabl 1, llinell 22, colofn 2, mewnosoder –

	Cyflenwir y ffon gotwm i ddarparwr gwasanaeth fforensig (fel y'i diffinnir yn rheoliad 2 o Reoliadau Achredu Darparwyr Gwasanaeth Fforensig 2018 (O.S. 2018/1276)).
--	---

**Janet Finch-Saunders**

**32**

Schedule 1, page 13, Table 1, line 6, column 2, insert –

	A cotton bud – (a) that is a relevant device; (b) for use for medical purposes by or under the direction of a health professional; or (c) for use by a health professional for medical purposes.
--	---

Atodlen 1, tudalen 13, Tabl 1, llinell 22, colofn 2, mewnosoder –

	Ffon gotwm – (a) sy'n ddyfais berthnasol; (b) sydd i'w defnyddio at ddibenion meddygol gan broffesiynolyn iechyd neu o dan gyfarwyddyd proffesiynolyn iechyd; neu (c) sydd i'w defnyddio gan broffesiynolyn iechyd at ddibenion meddygol.'
--	---

**Janet Finch-Saunders**

33

Schedule 1, page 13, Table 1, line 6, column 2, insert –

	The cotton bud is supplied for diagnostic, educational or research purposes.
--	--

Atodlen 1, tudalen 13, Tabl 1, llinell 22, colofn 2, mewnosoder –

	Cyflenwir y ffon gotwm at ddibenion diagnostig, addysgol neu ymchwil.
--	---

**Janet Finch-Saunders**

34

Schedule 1, page 13, Table 1, leave out lines 7 to 17.

Atodlen 1, tudalen 13, Tabl 1, hepgorer llinellau 23 hyd at 34.

**Janet Finch-Saunders**

35

Schedule 1, page 13, line 38, leave out

- '(a) a fully registered person within the meaning of the Medical Act 1983 (c. 54) who holds a licence to practise under that Act;
- (b) a person registered in the dentists register kept under section 14 of the Dentists Act 1984 (c. 24);
- (c) a supplementary prescriber, a nurse independent prescriber, an optometrist independent prescriber, a pharmacist independent prescriber or an approved country health professional, within the meanings given in the Human Medicine Regulations 2012 (S.I. 2012/1916) (see regulations 8(1) and 213(1));





- (d) an independent nurse prescriber, a paramedic independent prescriber, a physiotherapist independent prescriber, a podiatrist or chiropodist independent prescriber or a therapeutic radiographer independent prescriber, within the meanings given in regulation 2(1) of the National Health Service (Pharmaceutical Services) (Wales) Regulations 2020 (S.I. 2020/1073 (W. 241));'

and insert

- '(a) a registered medical practitioner;  
(b) a registered nurse or midwife;  
(c) a registered dentist within the meaning of section 53 of the Dentists Act 1984;  
(d) a registered pharmacist or a registered pharmacy technician within the meaning of article 3 of the Pharmacy Order 2010;  
(e) a registered dietician, occupational therapist or physiotherapist, being those registered in the register maintained under Article 5 of the Health and Social Work Professions Order 2001 (S.I. 2002/254) (see Article 5(5) of that Order);'.

Atodlen 1, tudalen 15, hepgorer llinellau 2 hyd at 17 a mewnosoder –

- (a) ymarferydd meddygol cofrestredig;  
(b) nyrs neu fydwraig gofrestrdig;  
(c) deintydd cofrestredig o fewn yr ystyr a roddir i "registered dentist" yn adran 53 o Ddeddf Deintyddion 1984;  
(d) fferylllydd cofrestredig neu dechnegydd fferyllfa cofrestredig o fewn yr ystyr a roddir i'r termau Saesneg cyfatebol yn erthygl 3 o Orchymyn Fferylliaeth 2010;  
(e) deietegydd, therapydd galwedigaethol neu ffisiotherapydd cofrestredig, sef y rhai hynny sydd wedi eu cofrestru yn y gofrestr a gynhelir o dan Erthygl 5 o Orchymyn Proffesiynau Iechyd a Gwaith Cymdeithasol 2001 (O.S.2002/254) (gweler Erthygl 5(5) o'r Gorchymyn hwnnw);'.

### **Janet Finch-Saunders**

36

Schedule 1, page 14, after line 14, insert –

“medical purposes” (“*dibenion meddygol*”) means the purposes of preventative medicine, medical diagnosis, medical research and the provision of medical care and treatment;’.

Atodlen 1, tudalen 14, ar ôl llinell 13, mewnosoder –

‘ystyr “dibenion meddygol” (“*medical purposes*”) yw dibenion meddyginiaeth ataliol, diagnosis meddygol, ymchwil feddygol a darparu gofal meddygol a thriniaeth feddygol;’.

### **Janet Finch-Saunders**

37

Schedule 1, page 14, leave out lines 17 to 20.

Atodlen 1, tudalen 14, hepgorer llinellau 32 hyd at 36.

**Janet Finch-Saunders** 38

Schedule 1, page 14, after line 20, insert –

“relevant device” (“*dyfais berthnasol*”) means, subject to regulation 3, a device within the meaning given in regulation 68(4) of the Medical Devices Regulations 2022 (S.I. 2002/618), to which Part 8 of those Regulations apply;’.

Atodlen 1, tudalen 14, ar ôl llinell 13, mewnosoder –

‘ystyr “*dyfais berthnasol*” (“*relevant device*”), yn ddarostyngedig i reoliad 3, yw dyfais o fewn yr ystyr a roddir yn rheoliad 68(4) o Reoliadau Dyfeisiau Meddygol 2022 (O.S. 2002/618), y mae Rhan 8 o’r Rheoliadau hynny yn gymwys iddo;’.

**Delyth Jewell** 39

Section 1, page 1, line 12, after ‘not’, insert ‘conceived,’.

Adran 1, tudalen 1, ar ddechrau llinell 14, mewnosoder ‘ddyfeisio, ei’.

**Delyth Jewell** 40

Section 1, page 1, line 13, after ‘was’, insert ‘conceived,’.

Adran 1, tudalen 1, llinell 14, ar ôl ‘y’i’ yn yr ail le y mae’n ymddangos, mewnosoder ‘dyfeisiwyd, y’i’.

**Delyth Jewell** 41

Page 3, after line 4, insert a new section –

**[1] Oversight Project Board and Advisory Panel**

- (1) Within 12 months of the day on which this Act receives Royal Assent, the Welsh Ministers must establish –
  - (a) an Oversight Project Board (“Board”), and
  - (b) an Advisory Panel for single-use plastic products (“Panel”), for the purposes listed in subsections (2) and (3) and to carry out the functions set by the Welsh Ministers in accordance with subsection (4).
- (2) The purpose of the Board is to enable –
  - (a) accountability of the Welsh Ministers in relation to this Act,
  - (b) oversight of the delivery of this Act, and
  - (c) evaluation of the implementation of this Act and regulations made under this Act.
- (3) The purpose of the Panel is to provide advice to the Welsh Ministers, and if requested by the Welsh Ministers, to the Board, on matters connected with this Act.
- (4) The functions of the Board and the Panel are such functions as the Welsh Ministers may set.
- (5) The functions which the Welsh Ministers set the Board may include –

- (a) regular progress review of policy and legislative proposals,
  - (b) monitoring product-specific projects,
  - (c) reviewing milestones, and
  - (d) considering appropriate mechanisms to collaborate with and involve stakeholders in developing and delivering proposals.
- (6) The functions which the Welsh Ministers set the Panel may include providing advice on –
- (a) matters relating to the affordability of reusable products that may replace prohibited single-use plastic products,
  - (b) steps that can be taken to make reusable products more affordable than prohibited single-use plastic products they may replace,
  - (c) how prohibition of single-use plastic products can be included within a curriculum designed in accordance with the Curriculum and Assessment (Wales) Act 2021,
  - (d) raising public awareness of this Act, and
  - (e) public engagement related to this Act.’.

Tudalen 3, ar ôl llinell 4, mewnosoder adran newydd –

**[ ] Bwrdd Prosiect Trosolwg a Phanel Cyngori**

- (1) O fewn 12 mis i’r diwrnod y caiff y Ddeddf hon y Cydsyniad Brenhinol, rhaid i Weinidogion Cymru sefydlu –
- (a) Bwrdd Prosiect Trosolwg (“Bwrdd”), a
  - (b) Panel Cyngori ar gyfer cynhyrchion plastig untro (“Panel”), at y dibenion a restrir yn is-adrannau (2) a (3) ac i gyflawni’r swyddogaethau a bennir gan Weinidogion Cymru yn unol ag is-adran (4).
- (2) Diben y Bwrdd yw hwyluso –
- (a) atebolrwydd Gweinidogion Cymru mewn perthynas â’r Ddeddf hon,
  - (b) trosolwg o ddarparu’r Ddeddf hon, ac
  - (c) gwerthusiad o weithredu’r Ddeddf hon a rheoliadau a wneir o dan y Ddeddf hon.
- (3) Diben y Panel yw darparu cyngor i Weinidogion Cymru, ac os ceir cais gan Weinidogion Cymru, i’r Bwrdd, ar faterion sy’n gysylltiedig â’r Ddeddf hon.
- (4) Swyddogaethau’r Bwrdd a’r Panel yw’r swyddogaethau hynny a bennir gan Weinidogion Cymru.
- (5) Caiff y swyddogaethau a bennir gan Weinidogion Cymru i’r Bwrdd gynnwys –
- (a) adolygiad cynnydd rheolaidd o gynigion polisi a chynigion deddfwriaethol,
  - (b) monitro prosiectau ar gynhyrchion penodol,
  - (c) adolygu cerrig milltir, a
  - (d) ystyried mecanweithiau priodol i gydweithredu â rhanddeiliaid wrth ddatblygu a chyflenwi cynigion a chynnwys rhanddeiliaid wrth wneud hyn.
- (6) Caiff y swyddogaethau a bennir gan Weinidogion Cymru i’r Panel gynnwys darparu cyngor –

- (a) ar faterion sy'n ymwneud â fforddiadwyedd cynhyrchion aml dro a all gymryd lle cynhyrchion plastig untro gwaharddedig,
- (b) ar gamau y gellir eu cymryd i wneud cynhyrchion aml dro yn fwy fforddiadwy na chynhyrchion plastig untro gwaharddedig y gellir defnyddio'r cynhyrchion aml dro yn eu lle,
- (c) ar sut y gellir cynnwys gwahardd cynhyrchion plastig untro o fewn cwricwlwm a ddylunnir yn unol â Deddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021,
- (d) ar godi ymwybyddiaeth y cyhoedd o'r Ddeddf hon, ac
- (e) ar ymgysylltiad â'r cyhoedd sy'n ymwneud â'r Ddeddf hon.'

**Delyth Jewell**

42

Section 5, page 4, after line 16, insert –

- '( ) Where two or more prohibited single-use plastic products are supplied, or offered for supply, together, for the purposes of subsection (1) this is to be treated as a single act of supply, or offering to supply, of a prohibited single-use plastic product.'

Adran 5, tudalen 4, ar ôl llinell 16, mewnosoder –

- '( ) Pan gyflenwir dau neu ragor o gynhyrchion plastig untro, neu pan gynnigir cyflenwi dau neu ragor o gynhyrchion plastig untro, gyda'i gilydd, at ddibenion is-adran (1) mae hyn i'w drin fel un weithred gyflenwi, neu gynnig i gyflenwi, cynnyrch plastig untro gwaharddedig.'

**Delyth Jewell**

43

Page 4, after line 19, insert a new section –

**[ ] Offence of manufacturing prohibited single-use plastic product**

- (1) A person of a description referred to in subsection (2) ("P") commits an offence if that person manufactures a prohibited single-use plastic product in Wales.
- (2) The descriptions of person that may commit an offence under this section are –
  - (a) a body corporate (including a body exercising any function of a public nature);
  - (b) a partnership;
  - (c) an unincorporated association;
  - (d) a person acting as a sole trader.
- (3) A person is accountable to P if –
  - (a) that person –
    - (i) is an employee of P,
    - (ii) has a contract for services with P,
    - (iii) is an agent of P, or
    - (iv) is otherwise subject to the management, control or oversight of P, and
  - (b) that person –
    - (i) is acting in the course of P's business, trade or profession,



- (ii) is acting in relation to the exercise by P of P's functions,
  - (iii) is acting in relation to P's objects or purposes, or
  - (iv) is otherwise acting under the management, control or oversight of P.
- (4) In proceedings for an offence under subsection (1), an allegation that a product was a prohibited single-use plastic product will be accepted as proved in the absence of evidence to the contrary.'

Tudalen 4, ar ôl llinell 19, mewnosoder adran newydd –

**[ ] Y drosedd o weithgynhyrchu cynhyrchion plastig untro gwaharddedig**

- (1) Mae person o ddisgrifiad y cyfeirir ato yn is-adran (2) ("P") yn cyflawni trosedd os bydd y person hwnnw yn gweithgynhyrchu cynnyrch plastig untro gwaharddedig yng Nghymru.
- (2) Y disgrifiadau o berson a all gyflawni trosedd o dan yr adran hon yw –
- (a) corff corfforaethol (gan gynnwys corff sy'n arfer unrhyw swyddogaeth o natur gyhoeddus);
  - (b) partneriaeth;
  - (c) cymdeithas anghorfforedig;
  - (d) person sy'n gweithredu fel unig fasnachwr.
- (3) Mae person yn atebol i P –
- (a) os yw'r person hwnnw –
    - (i) yn gyflogai i P,
    - (ii) â chontract ar gyfer gwasanaethau gyda P,
    - (iii) yn asiant i P, neu
    - (iv) fel arall yn ddarostyngedig i reoli, rheolaeth neu oruchwyliaeth P, a
  - (b) os yw'r person hwnnw –
    - (i) yn gweithredu yng nghwrs busnes, crefft neu broffesiwn P,
    - (ii) yn gweithredu mewn perthynas ag arfer swyddogaethau P gan P,
    - (iii) yn gweithredu mewn perthynas ag amcanion neu ddibenion P, neu
    - (iv) fel arall yn gweithredu o dan reoli, rheolaeth neu oruchwyliaeth P.
- (4) Mewn achos am drosedd o dan is-adran (1), bydd honiad bod cynnyrch yn gynnyrch plastig untro gwaharddedig yn cael ei dderbyn fel ei fod wedi ei brofi yn absenoldeb tystiolaeth i'r gwrthwyneb.'

**Delyth Jewell**

**44**

Section 6, page 4, after line 21, insert –

- '( ) A person guilty of an offence under section [section to be inserted by amendment 43] is liable on summary conviction to a fine.'

Adran 6, tudalen 4, ar ôl llinell 21, mewnosoder –

- '( ) Mae person sy'n euog o drosedd o dan adran [adran i'w mewnosod gan welliant 43] yn agored ar euogfarn ddiannod i ddirwy.'

**Delyth Jewell** 45

Section 7, page 4, line 25, after '5', insert 'or section [section to be inserted by amendment 43]'.  
Adran 7, tudalen 4, llinell 25, ar ôl '5', mewnosoder 'neu adran [adran i'w mewnosod gan welliant 43]'.

**Delyth Jewell** 46

Section 7, page 4, line 27, after '5', insert 'or section [section to be inserted by amendment 43]'.  
Adran 7, tudalen 4, llinell 27, ar ôl '5', mewnosoder 'neu adran [adran i'w mewnosod gan welliant 43]'.

**Delyth Jewell** 47

Section 7, page 4, line 29, after '5', insert 'or section [section to be inserted by amendment 43]'.  
Adran 7, tudalen 4, llinell 30, ar ôl '5', mewnosoder 'neu adran [adran i'w mewnosod gan welliant 43]'.

**Delyth Jewell** 48

Section 9, page 5, line 4, after '5', insert 'or section [section to be inserted by amendment 43]'.  
Adran 9, tudalen 5, llinell 3, ar ôl '5', mewnosoder 'neu adran [adran i'w mewnosod gan welliant 43]'.

**Delyth Jewell** 49

Section 10, page 5, line 17, after '5', insert 'or section [section to be inserted by amendment 43]'.  
Adran 10, tudalen 5, llinell 18, ar ôl '5', mewnosoder 'neu adran [adran i'w mewnosod gan welliant 43]'.

**Delyth Jewell** 50

Section 11, page 5, line 27, after '5', insert 'or section [section to be inserted by amendment 43]'.  
Adran 11, tudalen 5, llinell 29, ar ôl '5', mewnosoder 'neu adran [adran i'w mewnosod gan welliant 43]'.

**Delyth Jewell** 51

Section 13, page 6, line 21, after '5', insert 'or section [section to be inserted by amendment 43]'.  
Adran 13, tudalen 6, llinell 22, ar ôl '5', mewnosoder 'neu adran [adran i'w mewnosod gan welliant 43]'.

**Delyth Jewell** 52

Section 13, page 6, line 31, after '5', insert 'or section [section to be inserted by amendment 43]'.  
Adran 13, tudalen 6, llinell 32, ar ôl '5', mewnosoder 'neu adran [adran i'w mewnosod gan welliant 43]'.

**Delyth Jewell** 53

Section 15, page 7, line 31, after '5', insert 'or section [section to be inserted by amendment 43]'.  
Adran 15, tudalen 7, llinell 32, ar ôl '5', mewnosoder 'neu adran [adran i'w mewnosod gan welliant 43]'.

**Delyth Jewell** 54

Section 17, page 8, line 19, leave out 'offence under section 5' and insert 'offences under sections 5 or [section to be inserted by amendment 43]'.  
Adran 17, tudalen 8, llinell 20, hepgorer 'drosedd o dan adran 5' a mewnosoder 'troseddau o dan adran 5 neu [adran i'w mewnosod gan welliant 43]'.

**Delyth Jewell** 55

Section 22, page 10, line 20, after '4,', insert '[section to be inserted by amendment 41]'.  
Adran 22, tudalen 10, llinell 22, ar ôl '4,', mewnosoder '[adran i'w mewnosod gan welliant 41]'.

**Delyth Jewell** 56

Section 22, page 10, line 20, after '4,', insert '[section to be inserted by amendment 43]'.  
Adran 22, tudalen 10, llinell 22, ar ôl '4,', mewnosoder '[adran i'w mewnosod gan welliant 43]'.

**Delyth Jewell** 57

Schedule 1, page 12, Table 1, column 2, after line 10, insert –

	<i>Exemption 5</i> The manufacture of a straw – (a) to be used for a health or disability reason, and (b) with the intention of that straw being supplied under Exemptions 1, 2, 3 or 4.
--	---

Atodlen 1, tudalen 12, Tabl 1, colofn 2, ar ôl llinell 20, mewnosoder –

	<i>Esempiad 5</i> Gweithgynhyrchu gwelltyn – (a) i'w ddefnyddio am reswm sy'n ymwneud ag iechyd neu anabledd, a (b) â'r bwriad o gyflenwi'r gwelltyn hwnnw o dan Esempiad 1, 2, 3 neu 4.
--	---

**Delyth Jewell** 58

Schedule 1, page 13, Table 1, column 2, after line 5, insert –

	<i>Exemption 4</i> The manufacture of a carrier bag intended for supply under exemptions 1, 2, or 3.
--	---

Atodlen 1, tudalen 13, Tabl 1, colofn 2, ar ôl llinell 20, mewnosoder –

	<i>'Esemptiad 4</i> Gweithgynhyrchu bag siopa y bwriedir ei gyflenwi o dan esemptiad 1, 2 neu 3.
--	---

**Delyth Jewell** 59

Schedule 1, page 13, Table 1, line 15, column 1, after 'supplied', insert 'or manufactured'.

Atodlen 1, tudalen 13, Tabl 1, llinell 30, colofn 1, ar ôl 'cyflenwir', mewnosoder 'neu y gweithgynhyrchir'.